# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 20fed Mehefin 2016 am 7pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Alan Hugh Jones, Bethan Lawton, Ieu Thomas, Peter Parker, Arwel Pierce

Croeso: Estynnwyd croeso i Glerc newydd y Cyngor gan y Cadeirydd. Diolchodd y Cadeirydd y Cynghorwyr canlynol am eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf, Alan Hugh Jones, Bethan Lawton ac Arwel Pierce.

Ymddiheuriadau: Dim

Datgan diddordeb: Cynghorydd Arwel Pierce - cais ariannol Dail Dysynni

Derbyn cofnodion 16 Mai 2016

**PENDERFYNIAD:** Cynigwyd gan y Cynghorydd Bethan Lawton, eiliwyd gan y Cynghorydd Alan H Jones

Derbyn cofnodion 31 Mai 2016

**PENDERFYNIAD:** Cynigwyd gan y Cynghorydd Bethan Lawton, eiliwyd gan y Cynghorydd Alan H Jones

Materion yn codi:

£200 yn ddyledus gan y Clwb Pêl-droed
**PENDERFYNIAD:** Y Cynghorydd Arwel Pierce i gysylltu â Gwyn Williams o'r Clwb Pêl-droed

Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru
Bu i'r Cynghorydd Heilyn Williams o Gyngor Tref Dolgellau gael ei ethol yn Gadeirydd y Gangen. Trafodwyd uno Cynghorau Cymuned a chynlluniau y Gweinidog newydd, Mark Drakeford AC. Trefniadau cynnal archwiliad allanol gyda chwmni BDO. Ymgynghori cyn codi presept a chyfrifoldeb dros wasanaethau newydd megis toiledau a biniau halen.
**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth

Cae Chwarae - torri gwair, atgyweirio mainc John Robertson
**PENDERFYNIAD:** Kevin Jones i dorri'r gwair cyn y Carnifal. Y Cynghorydd Arwel Pierce drafod gyda Pwyllgor y Mabolgampau er mwyn iddynt hwy wneud y gwaith o atgyweirio'r fainc.

Ardaloedd Cymunedol Gwynedd:

**PENDERFYNIAD:** Gwrthwynebu.

Cae Chwarae - Adroddiad:

Cafwyd wybod bod y Pafiliwn yn iawn ond angen ei lanhau. Bod polyn newydd wedi ei archebu ar gyfer y siglen. Cwmni Tân Llŷn wedi ymweld a'r Pafiliwn er mwyn edrych ar yr offer tân, gan rhoi tystysgrif am flwyddyn arall. Cais i'r Rotari am arian wedi ei gyflwyno.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth, gyda'r Cynghorydd Alan H Jones a'r Cynghorydd Bethan Lawton yn gwirfoddoli i lanhau'r Pafiliwn.

Adroddiad y Cynghorydd Sir**:**

Cyngor Gwynedd wedi derbyn cwynion am lwybr Bryncrug i Dywyn. Contractwyr yn cychwyn o fewn yr wythnos. Mark Drakeford AC, y Gweinidog yn gyfrifol am uno Cynghorau yn edrych ar ffyrdd eraill yn hytrach nag uno. Cyngor Gwynedd wedi ail-ystyried y trefniadau torri gair, posib bydd yn newid yma i'r gyllideb yn cael effaith ar wasanaethau eraill.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth

Y Ganolfan:

Derbyniwyd lythyr gan Gadeirydd y Ganolfan, Mr G Evans yn gofyn i Gyngor Cymuned Bryncrug anfon llythyr yn Saesneg.

**PENDERFYNIAD:** Anfon llythyr at Pwyllgor y Ganolfan yn cydnabod llythyr y Ganolfan, gyda'r llythyr i fod yn y Gymraeg a'r geiriad yn Saesneg *This is a letter to acknowledge receipt of your letter*.

Biniau Halen:

E-bost wedi ei dderbyn yn manylu'r manteision o ddefnyddio Cyngor Gwynedd i gyflenwi halen. Nid oes biniau halen o fewn ffiniau Cyngor Cymuned Bryncrug.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth

Llwybrau:

Derbyniwyd llythyr yn manylu y rhaglen waith.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth

Taliadau:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Ganolfan | Llogi ystafell | 101500 | £24.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r uchod

Parc Cenedlaethol Eryri - cyfarfod cyhoeddus:

Derbyniwyd llythyr gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gwahodd Cynghorau Cymunedi gyfarfod cyhoeddus yn Abergynolwyn ar 5ed Gorffennaf am 6pm.

**PENDERFYNIAD:** Cynghorydd Richard Evans a'r Cynghorydd Alan H Jones am fynychu.

Adnewyddu Bwrdd y Mileniwm:

**PENDERFYNIAD:** Elusen Dolgoch i brynu hysbysfwrdd er mwyn hysbysebu llwybrau Dolgoch. I neilltio oddeutu £2,000 - £3,000 ar gyfer yr hysbysfwrdd.

Toiledau Cyhoeddus:

Pwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd yn cyflwyno cynnig i'r Cabinet, sef gofyn i Gynghorau Cymuned gyfrannau £2,000 am doiled sydd ar agor am hanner y flwyddyn, £4,000 am doiled sydd ar agor drwy'r flwyddyn.
Cafwyd wybod bod y Parc Cenedlaethol wedi llwyddo i arbed arian drwy newid contractau glanhau toiledau.

**PENDERFYNIAD:** Aros i dderbyn llythyr gan Cyngor Gwynedd. Ymchwilio mewn i gost peiriant arian er mwyn ei roi ar ddrws toiled.

Cynllunio - codi dau ports ffrynt yn 1 a 2 Rhyd yr Onnen:

Pwyllgor Cynllunio y Parc wedi caniatáu'r cais.

**PENDERFYNIAD:** i dderbyn y wybodaeth

Cyfarfod Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth:

Derbyniwyd gohebiaeth yn hysbysu'r Cygnor o gyfarfod yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi ar 21 Mehefin 2016.

**PENDERFYNIAD:** i dderbyn y wybodaeth

Cais am gyfraniad ariannol:

Derbyniwyd gais am gyfraniad ariannol gan Dail Dysynni.

Bu i'r Cynghorydd Arwel Pierce ddatgan diddordeb a gadael yr ystafell.

**PENDERFYNIAD:** i gyfrannu £100 tuag at costau Dail Dysynni

Dychwelodd y Cynghorydd Arwel Pierce i'r cyfarfod

Parc Cenedlaethol Eryri - cais am gefnogaeth i osod adwy:

**PENDERFYNIAD:** i anfon llythyr yn cefnogi'r cais i osod adwy

Bu i'r Cynghorydd Alan H Jones adael y cyfarfod am 8:12pm

Datganiadau Cyfrifyddu 2015-16:

**PENDERFYNIAD:** i gymeradwyo Datganiadau Cyfrifyddu 2015-16

Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 a Rhan 2):

**PENDERFYNIAD:** i gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 a Rhan 2)

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:23pm